FARMING connect
cyswllt FFERMIO

# Dewis Cynghorydd

**A oes gennych chi ddiddordeb i dderbyn cyngor annibynnol, cyfrinachol wedi'i deilwra a fydd yn eich cynorthwyo i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol?**

Os felly, gallai dewis cynghorydd wedi'i gymeradwyo trwy Wasanaeth Cynghori newydd Cyswllt Ffermio fod yn gam cyntaf pwysig.

Mae cyngor gyda chymhorthdal o 80% (hyd at uchafswm o 1,500 ewro) ar gael i fusnesau cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, ond mae'n bwysig eich bod yn dewis eich cynghorydd yn ofalus, gan gyfateb eich anghenion gyda'u harbenigedd penodol nhw.

Bydd yr arweiniad cam wrth gam canlynol yn eich cynorthwyo i ddewis yn ddoeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau o'r gwasanaeth newydd hwn.

**NODER:** Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar gael ar sail un-i-un yn ogystal ag i grwpiau sy'n chwilio am gyngor ynglŷn â'r un pwnc neu faes. Gallai'r ail ddewis fod yn fodd cost effeithiol o dderbyn cefnogaeth, gan y byddwch yn gallu rhannu'r cyngor yn ogystal â'r gost.

Am gyngor pellach, cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio rhanbarthol.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## 1. A fyddai eich busnes yn cael budd o gyngor arbenigol?

**Dyma rai cwestiynau sylfaenol y dylech eu gofyn i chi eich hun.**

- A ddylwn i wneud y penderfyniad hwn fy hun neu ei drafod gydag unigolion eraill fel aelodau'r teulu?
- A allai rhannau penodol o'r busnes fod yn perfformio yn well?
- A fyddai arweiniad annibynnol, cyfrinachol yn help i mi edrych ar bethau yn wrthrychol a chanolbwyntio ar flaenoriaethau?
- A ddylwn i fod yn newid cyfeiriad/yn gwneud pethau'n wahanol i wella'r canlyniadau?
- Ai cynghorydd wedi ei gymeradwyo gan Cyswllt Ffermio yw'r dewis gorau i mi neu a alla i dderbyn y gefnogaeth/cyngor y mae arnaf eu hangen o rywle arall e.e. trwy wasanaethau Cyswllt Ffermio eraill wedi eu hariannu'n llawn?

## 2. Sut i ddewis cynghorydd

**Bydd y camau canlynol yn eich helpu i ddewis y cynghorydd mwyaf addas a gymeradwywyd gan Cyswllt Ffermio i fodloni anghenion eich busnes.**

- Cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio rhanbarthol ac esbonio pam eich bod yn teimlo y gallech fod angen cyngor arbenigol gan gynghorydd a gymeradwywyd.
- Gofynnwch am gael gweld a thrafod y rhestr o gynghorwyr a gymeradwywyd.
- Ystyriwch deilyngdod/sgiliau/profiad pob un i'ch helpu i gyfateb y meysydd penodol o arbenigedd â'ch gofynion chi.
- Lluniwch restr fer - fe fyddem yn eich cynghori i gyfweld mwy nag un cynghorydd a chael nifer o ddyfynbrisiau cyn gwneud eich penderfyniad, er eich bod, efallai, wedi cael argymhelliad gan ffermwr arall, sy'n arwydd da bob amser.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

## 3. Cyfweld eich cynghorwyr - gwneud y dewis gorau

**Gallwch gyfweld y rhai sydd ar eich rhestr fer ar y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dylai'r cwestiynau canlynol - efallai fod gennych fwy - eich helpu i ddewis yr unigolyn mwyaf addas i'ch helpu i ddatblygu neu wella eich busnes.**

- A oes ganddynt y lefel o brofiad/arbenigedd penodol i'r sector neu gymwysterau angenrheidiol i fodloni eich anghenion?
- A fyddant yn rhoi cyngor annibynnol, cyfrinachol ac yn esbonio'r rhesymeg tu ôl iddo mewn ffordd y byddwch chi'n ei ddeall h.y. yn cynnig atebion ymarferol, cost effeithiol y byddwch chi'n gallu eu gweithredu?
- A oes ganddynt yr amser/gallu i roi'r cyngor pan fydd arnoch ei angen, ac a ydynt yn gallu cynnig cefnogaeth gan arbenigwyr eraill os bydd angen?
- A allan nhw ddarparu'r gwasanaeth hwn mewn modd sy'n berthnasol i anghenion eich busnes h.y. yn ogystal â darparu adroddiad manwl o'r argymhellion, a fydd eich dyfynbris yn cynnwys cefnogaeth un-i-un trwy ymweliadau/galwadau ffôn/e-bost ayyb?

## 4. Penodi cynghorydd a chytuno ar delerau

- Ar ôl dewis eich cynghorydd a derbyn **cytundeb ffurfiol** gyda'ch cynghorydd o ddewis, amlinellwch yn union beth yw'r disgwyliadau.
- Mae cytundeb wedi ei lofnodi gan y ddwy ochr yn ddogfen gyfreithiol ac os oes unrhyw anghydfod, gellir cyfeirio at y telerau a gytunwyd. Dylai'r ddogfen hon egluro **yn union** beth sydd angen i chi ei roi iddynt o ran amser / gwybodaeth/paratoi ac **yn union** beth allwch chi ddisgwyl ei gael yn ôl.
- Gallai'r materion y dylid eu nodi yn y cytundeb hwn gynnwys e.e. nifer a hyd yr ymweliadau fferm; amser cyswllt ar y ffôn; costau amser, teithio a chynhaliaeth.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Os teimlwch y byddech yn cael budd o gyngor dilynol i'ch helpu i fonitro perfformiad a chymharu hyn â meincnodau'r diwydiant, caniatewch amser ar gyfer hynny yn y cytundeb.
- Bydd angen i chi **gyflwyno ffurflen gais** i Cyswllt Ffermio. Gallwch wneud cais ar-lein neu gysylltu â'ch swyddog datblygu rhanbarthol lleol os oes angen cefnogaeth arnoch.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government